# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_19_02_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson**<br>**Bethan Jenkins** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Jones AC. Roedd Bethan Jenkins AC yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1P-04-456 Dementia – Gallai hyn ddigwydd i chi

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

- Dementia UK; a’r
- Gymdeithas Alzheimer i ofyn eu barn am y ddeiseb.

Gall y Pwyllgor wahodd y deisebydd i roi tystiolaeth lafar yn y dyfodol.

### 2.2P-04-457 Yr Ymgyrch Caplaniaeth Elusennol

Bu’r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn ei barn am y ddeiseb. Yn amodol ar ymateb y Gweinidog, gall y Pwyllgor gyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddeiseb.

### 2.3P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus

Bu’r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn ei farn am y ddeiseb.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-03-317 Cyllid ar gyfer y Celfyddydau Hijinx

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Hijinx i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a oes ffrydiau ariannu ychwanegol wedi cael eu cadarnhau, a pha effaith y mae'r gostyngiad mewn cyllid gan Gyngor y Celfyddydau wedi ei chael ar ei waith.

### 3.2P-04-407 Achub Llety Gwarchod Kennard Court ar gyfer Pobl Hŷn

Bu’r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb ac yn sgîl yr ohebiaeth ddiweddaraf a gafwyd gan Aelod Cynulliad Tor-faen, cytunwyd i ohirio ystyried y ddeiseb tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

### 3.3P-04-366 Cau canolfan ddydd Aberystwyth

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i;

- aros am ganfyddiadau’r adolygiad annibynnol; ac
- ysgrifennu at Gyngor Ceredigion i dynnu sylw at y materion sy’n parhau i beri pryder i’r deisebwyr ynghylch y gwasanaethau a ddarperir, ynghyd â’r pryderon am yr adolygiad annibynnol.

### 3.4P-04-424: Cadw gwasanaethau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i;

- aros nes y byddai’r ymgynghoriad am wasanaethau gofal iechyd yn ne- ddwyrain Cymru yn cael ei gyhoeddi, er mwyn gweld pa gynigion a gaiff eu gwneud o ran gwasanaethau Ysbyty Castell-nedd Port Talbot; ac
- ysgrifennu at Ddeoniaeth Cymru yn mynegi pryder ynghylch amseriad y cyhoeddiadau.

### 3.5P-04-343 Atal dinistrio amwynderau ar dir comin - Ynys Môn

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y mater, a thynnu sylw at yr ymateb diweddar a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog.

### 3.6P-04-385 Deiseb ar ryddhau balŵns a lanternau

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i ofyn iddo hysbysu’r Pwyllgor o unrhyw ddatblygiadau yn y gwaith ymchwil ac i rannu’r astudiaeth â’r Pwyllgor pan gaiff ei chyhoeddi.

### 3.7P-04-398 Ymgyrch dros gael cofrestr ar gyfer pobl sy’n cam-drin anifeiliaid yng Nghymru

Bu’r Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad am y ddeiseb a chytunodd i;

- holi barn rhanddeiliaid nad ydynt wedi ymateb i’r ymgynghoriad, ond y gallai eu barn fod yn ddefnyddiol: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), Dogs Trust a Cats Protection;
- ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ofyn a yw Lloegr wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i’r syniad hwn;
- ysgrifennu at lywodraethau yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon i ofyn a ydynt wedi ystyried y syniad hwn; ac
- ymchwilio i’r posibilrwydd o godi hyn yn y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig.

### 3.8P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion - lle sy'n cael ei rannu

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at;

- Y Pwyllgor Menter a Busnes i ofyn iddo ystyried y materion hyn wrth ystyried y Bil Teithio Llesol (Cymru); a’r
- Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn iddo hysbysu’r Pwyllgor o unrhyw ddatblygiadau ynghylch y mater hwn.

### 3.9P-04-370 Deiseb ynghylch gwella gwasanaethau seicig a greddfol yng Nghymru

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb ac yn sgîl gwaith blaenorol y Pwyllgor ar y ddeiseb hon, cytunwyd y dylid cau’r ddeiseb.

### 3.10 P-04-393 Grŵp Gweithredu Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at;

- Gyngor Sir Powys i gael ei farn am y ddeiseb; a
- chael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

### 3.11 P-04-402 Gweddïau Cyngor

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at;

- y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn a fyddai’n ystyried cyhoeddi nodyn yn crynhoi’r cyngor cyfreithiol a gafwyd ynghylch y mater hwn, fel y gwnaeth CLlLC gais amdano; ac

- Un Llais Cymru, i ofyn ei farn am y ddeiseb.

### 3.12 P-04-416 Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd-De

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i;

- ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i dynnu sylw at yr anawsterau sy'n codi yn sgîl yr amserlennu, ac iddo ystyried y materion hyn yn fanylach, ac i ofyn a fu unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a chwmni Arriva; a
- rhannu adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig pan gaiff yr adroddiad hwnnw ei gyhoeddi.

### 3.13 P-04-426 Cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i;

- dynnu sylw at y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y deisebydd;
- gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf o ran yr adolygiad o'r terfyn cyflymder; gofyn iddo gadarnhau y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol; a
- gofyn faint o amser y bydd yn ei gymryd i gyflwyno'r terfyn amser diwygiedig os y caiff ei gynnig.

### 3.14 P-04-428: Ynni amgen ar gyfer goleuadau stryd

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at CLlLC i ofyn ei barn am y ddeiseb.

### 3.15 P-04-438 Hygyrchedd wrth Siopa

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chytnodd i dderbyn gwahoddiad y deisebwyr i fynd allan yng Nghaerdydd i brofi rhai o'r materion a godir yn y ddeiseb drosto'i hun.

### 3.16 P-04-414 Swyddi Cymreig

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb mewn sesiwn breifat a chytunodd i ohirio'r drafodaeth tan gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

### 3.17 P-04-446 Rhyddhad Ardrethi Busnes i siopau elusen yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan y Gweinidog am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddonaeth i ofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud.

### 3.18 P-04-396 Sgiliau Triniaeth Cynnal Bywyd Brys i Blant Ysgol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth am y ddeiseb a chutunodd i ysgrifennu at;

- y deisebwyr i ofyn a ydynt yn teimlo y gallai'r Pwyllgor ychwanegu gwerth at y gwaith o ystyried y mater hwn, yn sgîl safbwynt y Llywodraeth; ac
- archwilio a allai Bagloriaeth Cymru gynnwys Sgiliau Triniaeth Cynnal Bywyd Brys.

### 3.19 P-04-441 Gwaith i Gymru - Work for Wales

Bu’r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan y gweinidog am y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd i gael ei farn am ohebiaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5. Adolygiad o gymorth Pwyllgorau

Bu’r Pwyllgor yn trafod y cymorth a roddir i bwyllgorau.